# **Arweiniad atodol:** arolygu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn ysgolion

**Mai 2023**

estyn.llyw.cymru
@EstynAEF

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/yr adroddiad penodol.**

**Beth yw diben yr arweiniad atodol hwn?**
Darparu arweiniad i arolygwyr ar gyfer gwerthuso safonau a darpariaeth TGCh. Mae hwn yn rhoi arweiniad pellach i arolygwyr ei ddefnyddio ochr yn ochr ag arweiniad y sector ar gyfer arolygu.

**Ar gyfer pwy y mae wedi'i fwriadu?**
Holl arolygwyr ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir.

**O ba bryd y dylid dechrau defnyddio'r arweiniad?**
Ebrill 2023

## Cynnwys


Ynglŷn â'r arweiniad hwn ..... 1

Arolygu Medrau Digidol ..... 2

Casglu tystiolaeth ..... 3

Medrau digidol a'r fframwaith arolygu ..... 3

MA1 – Dysgu ..... 3

MA3 – Addysgu a phrofiadau dysgu ..... 6

MA4 – Gofal, cymorth ac arweiniad ..... 6

MA5 – Arweinyddiaeth a rheolaeth ..... 6

Atodiad 1 – Gwrando ar ddysgwyr ..... 8

Atodiad 2 – Cwestiynau i uwch arweinwyr ..... 13

## Ynglŷn â'r arweiniad hwn

Mae ein harweiniad arolygu yn esbonio **Beth** rydym yn ei arolygu a **Sut** rydym yn arolygu. Fodd bynnag, rydym hefyd yn llunio arweiniad atodol i helpu arolygwyr i ystyried agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant ymhellach.

Mae'r dogfennau arweiniad atodol yn amlinellu rhai egwyddorion allweddol, ystyriaethau ac adnoddau i arolygwyr. Maent yn perthyn i bob sector y mae Estyn yn ei arolygu, oni fyddant yn datgan eu bod ar gyfer sector penodol. Maent yn ymhelaethu ar agweddau penodol ar addysg/hyfforddiant (e.e. arolygu llythrennedd) neu ffyrdd o gynnal arolygiadau (e.e. defnyddio teithiau dysgu) neu drefniadau arolygu penodol (e.e. arweiniad ar arolygu ysgolion eglwys).

Nid yw'r dogfennau arweiniad atodol yn anelu at fod yn gynhwysfawr. Nid yw'n ofynnol i arolygwr weithio drwyddynt yn fanwl wrth ymdrin ag unrhyw agwedd benodol mewn arolygiad. Fodd bynnag, gallant fod yn ddefnyddiol i arolygwyr wrth ymateb i gwestiynau penodol sy'n dod i'r amlwg yn ystod arolygiadau neu pan fyddant yn dymuno myfyrio neu ymchwilio ymhellach.

Gall y dogfennau arweiniad atodol helpu darparwyr i ennill dealltwriaeth o drefniadau arolygu Estyn.  Hefyd, gallant fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr wrth werthuso agweddau penodol ar eu darpariaeth nhw.

Mae ein gwaith arolygu wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol

- Bydd arolygwyr yn arolygu â meddylfryd cadarnhaol i sicrhau mai hwn yw'r profiad dysgu proffesiynol gorau posibl ar gyfer y staff ym mhob darparwr
- Bydd arolygwyr yn defnyddio dull arolygu sy'n cael ei arwain gan y dysgwyr
- Bydd arolygwyr bob amser yn canolbwyntio'n gryf ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu
- Bydd arolygwyr yn chwilio am arfer arloesol dra ystyriol
- Bydd arolygwyr yn teilwra gweithgareddau'r arolygiad yn unol â'r amgylchiadau ym mhob darparwr, cyhyd ag y bo modd
- Bydd arolygwyr yn hyblyg ac yn ymatebol i ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg, a byddant yn defnyddio'r amrywiaeth gynyddol o offer a dulliau arolygu sydd ar gael
- Bydd arolygwyr yn ystyried popeth yn y fframwaith arolygu, ond yn adrodd ar y cryfderau allweddol a'r gwendidau yn unig ym mhob darparwr

## Arolygu Medrau Digidol

Mae cymhwysedd digidol yn fedr trawsgwricwlaidd gorfodol ochr yn ochr â llythrennedd a rhifedd, a rhaid i ysgolion ddatblygu cwricwlwm sy'n creu cyfleoedd i ddisgyblion ddod yn ddefnyddwyr technoleg hyderus. O dan y fframwaith arolygu presennol, bydd Estyn yn parhau i arolygu pa mor dda y mae disgyblion yn datblygu'u medrau digidol ac yn gallu'u hymestyn a'u cymhwyso ar draws y cwricwlwm.

Mae'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (y Fframwaith) ac elfen gyfrifiadurol maes dysgu a phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn rhoi arweiniad i leoliadau ar gyfer creu profiadau dysgu sy'n sicrhau dilyniant priodol ym medrau digidol disgyblion.

I ysgolion cynradd, dechreuwyd cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022, gyda'r cwricwlwm yn orfodol i Flynyddoedd 7 ac 8 o Fedi 2023 ymlaen. Felly, dylai ysgolion cynradd eisoes fod yn gweithredu cwricwlwm sy'n adlewyrchu medrau trawsgwricwlaidd cymhwysedd digidol a dylai ysgolion uwchradd fod yn ymhél yn effeithiol â'r Fframwaith. Fodd bynnag, os nad dyma'r achos, mae angen i arolygwyr ystyried a yw hyn yn cael effaith negyddol ar weithredu'r Cwricwlwm i Gymru, neu baratoi disgyblion a staff ar ei gyfer.

Y tasgau allweddol i arolygwyr yw gwerthuso:

- safonau medrau digidol disgyblion
- a yw disgyblion yn defnyddio'u medrau digidol yn effeithiol i ehangu a dyfnhau eu gwybodaeth am y cwricwlwm cyfan
- pa mor dda mae'r cwricwlwm yn datblygu dilyniant ym medrau digidol disgyblion
- ansawdd yr arweinyddiaeth mewn cydlynu medrau digidol, a'r rheolaeth ar hynny

Dyma brif ddangosyddion dilyniant mewn medrau digidol:

- synnwyr o ddiben sy'n datblygu a chynulleidfa i'w gwaith
- cymhwysedd a soffistigeiddrwydd cynyddol yn y defnydd creadigol o swyddogaethau meddalwedd
- y newid graddol o ddefnyddio adnoddau digidol a roddwyd i ddewis a dethol adnoddau yn addas at y dasg a'r diben
- soffistigeiddrwydd cynyddol mewn dysgu cydweithredol gan ddefnyddio offer digidol
- ymwybyddiaeth gynyddol o gadw'n ddiogel ar-lein a'r effaith ar les personol wrth ddefnyddio platfformau digidol.

## Casglu tystiolaeth

Bydd arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth o ddefnyddio medrau digidol ar draws y cwricwlwm wrth arsylwi gwersi, mewn llyfrau ac mewn arddangosfeydd ystafell ddosbarth ac ysgol gyfan wrth gerdded o gwmpas yr ysgol. Mae gan lawer o ysgolion bortffolios digidol ar gyfer disgyblion, er enghraifft gan ddefnyddio Hwb neu Google Drive. Mae'n ddefnyddiol gofyn i arweinwyr ysgol roi mynediad at rai enghreifftiau o'r portffolios ar-lein hyn yn ystod yr arolygiad. Gall gwefan yr ysgol fod yn ffynhonnell tystiolaeth werthfawr hefyd.

Fodd bynnag, does dim yn cymharu ag arsylwi gwaith digidol a'i drafod gyda'r dysgwyr eu hunain. Felly, disgwylir i chi gyfarfod â grŵp o ddysgwyr fel y byddwn yn ei wneud pan fyddwn yn gwrando ar ddarllenwyr wrth arolygu llythrennedd. Bydd hyn yn caniatáu i arolygwyr weld a thrafod y gwaith gyda disgyblion o flaen dyfeisiau digidol, fel y gall dysgwyr fynd at eu gwaith unigol a chydweithredol, ei ddangos a'i drafod.

Lle y bo'n bosibl, dylai arolygwyr gyfarfod ag arweinwyr sy'n gyfrifol am ddatblygu medrau digidol ar draws yr ysgol a thrafod sut mae'r ysgol yn gweithredu ei gweledigaeth ar gyfer y Fframwaith a'r Cwricwlwm i Gymru.

Gallai trafodaethau ganolbwyntio ar:

- sut mae anghenion dysgu proffesiynol athrawon yn cael eu nodi a sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i gynllunio hyfforddiant, cymorth ac arweiniad.
- sut mae ysgolion yn mapio'r Fframwaith ar draws y cwricwlwm ac yn sicrhau nad oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth a chynnwys digon o ddilyniant a pharhad
- sut mae staff yn cynllunio ar gyfer datblygiad medrau digidol disgyblion, sy'n caniatáu iddynt weithio a chydweithredu'n ddiogel ac yn bwrpasol ar-lein
- sut mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn cydweithredu ag eraill i rannu arfer dda.

## Medrau digidol a'r fframwaith arolygu

### MA1 – Dysgu

Bydd pob adroddiad arolygu'n cynnwys paragraff ym maes arolygu 1 ar safonau medrau digidol disgyblion a pha mor dda y maent yn eu defnyddio ar draws y cwricwlwm. Bydd angen i arolygwyr benderfynu a yw medrau digidol disgyblion yn gwneud cynnydd da ar draws yr ysgol ac a yw disgyblion yn datblygu annibyniaeth gynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso'r medrau hyn yn fwyfwy soffistigedig.

Isod, mae rhai enghreifftiau'n dangos dilyniant posibl ym medrau digidol disgyblion. Ni fwriedir iddynt fod yn rhestr ticio i arolygwyr farnu dysgu disgyblion yn 5, 8 ac 11

oed, er enghraifft, ond arweiniad ar sut y dylai gwybodaeth disgyblion am offer digidol ar draws y cwricwlwm, a'u cymhwyso, ddod yn fwy soffistigedig.

**Erbyn Cam Dilyniant 1, gall disgyblion:**

- ddechrau adnabod rheolau syml sy'n eu cadw nhw'n ddiogel ar-lein
- cadw ac adalw eu gwaith digidol o apiau a meddalwedd gyfarwydd
- creu cynnwys digidol syml, gan ychwanegu testun a delweddau, animeiddiadau syml a fideos
- rheoli dyfeisiau trwy roi cyfarwyddiadau syml a gweld camgymeriadau a'u cywiro. *Er enghraifft, wrth gynhyrchu algorithmau syml i reoli tegan*
- cyflwyno data a gasglwyd ganddynt mewn siartiau syml a siarad am yr hyn y maent wedi'i ddarganfod

**Erbyn Cam Dilyniant 2, gall disgyblion:**

- ddeall rheolau sylfaenol am sut i gadw'n ddiogel ar-lein, gan gynnwys defnyddio cyfrineiriau a pheidio â rhannu gwybodaeth bersonol â phobl ddieithr
- dechrau deall sut y gall gorddefnyddio dyfeisiau digidol effeithio ar les personol
- dechrau cyfathrebu ar-lein gan ddefnyddio dulliau syml, fel e-bost
- gweithio'n gydweithredol ag eraill ar blatfformau cyfarwydd i greu dogfennau sy'n cael eu rhannu, *er enghraifft defnyddio proseswyr geiriau, cyflwyniadau a thaenlenni ar-lein*
- deall sut i gadw ac adalw'u ffeiliau o leoliadau gwahanol
- creu, golygu a gwella cynnwys digidol, gan gyfuno testun, delweddau, sain, animeiddiadau a fideos gan ddefnyddio offer meddalwedd mwy soffistigedig, *er enghraifft ychwanegu hyperddolenni, copïo a gludo, a thocio a chylchdroi delweddau.*
- creu siartiau llif/diagramau o gyfarwyddiadau a chreu a dilyn algorithmau syml i ddarogan canlyniadau neu weld camgymeriadau.
- casglu, trefnu a dadansoddi data mewn amrywiaeth o fformatau, *er enghraifft tablau, siartiau, cronfeydd data a thaenlenni, a defnyddio'r rhain i ateb cwestiynau*

**Erbyn Cam Dilyniant 3, gall disgyblion,**

- ddeall sut i gadw'n ddiogel ar-lein, gan gynnwys meddwl yn feirniadol am y wybodaeth sy'n cael ei rhannu a deall sut i adnabod gwefannau diogel neu wybodaeth ffug
- deall ymddygiad ar-lein priodol a datblygu strategaethau ar gyfer delio â pheryglon ar-lein fel bwlio, cynnwys rhywiol ac iaith hiliol neu homoffobig
- datblygu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cydbwyso amser sgrin â gweithgareddau eraill, *er enghraifft deall pam mae'n anodd weithiau cyfyngu ar chwarae gemau a sut y gall effeithio ar les*
- dechrau deall sut i ddyfynnu ffynonellau wrth gyflawni ymchwil, *er enghraifft wrth gyfeirio at ffynonellau ar-lein neu all-lein*
- defnyddio amrywiaeth o fathau o gyfathrebu digidol a deall pa un sydd orau i'w ddefnyddio mewn cyd-destunau gwahanol, *er enghraifft e-bost, fideo gynadledda, negeseua uniongyrchol*
- cydweithredu ag eraill i greu a mireinio'u gwaith, gan ymateb i'w hadborth ar-lein ei gilydd
- dewis a defnyddio meddalwedd yn annibynnol i ymgorffori amrywiaeth eang o elfennau amlgyfrwng a defnyddio ystod gynyddol o offer golygu er mwyn creu

cynnwys digidol o ansawdd, *er enghraifft defnyddio amrywiaeth o fformatau testun, gwiriwr sillafu, canfod a disodli, geirlapio, addasu a mireinio delweddau, trimio a rhannu darnau sain a fideo, creu trawsnewidiadau, gwreiddio gwrthrychau mewn cyflwyniadau*

- creu a mireinio algorithmau, gan gynnwys adnabod patrymau mynych ac ychwanegu dolenni
- defnyddio synwyryddion ac ysgogwyr i gasglu data a rheoli modelau ffisegol
- defnyddio a dylunio taenlenni a chronfeydd data i gasglu a dadansoddi gwybodaeth neu i gefnogi ymchwiliad neu brosiect ymchwil
- defnyddio amrywiaeth o fformiwlâu mewn taenlenni, er enghraifft + *- / x, sum, average, max, min*

## MA3 – Addysgu a phrofiadau dysgu

Wrth werthuso pa mor dda mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd dysgu i ddisgyblon ddatblygu'r medrau hynny uchod, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae lleoliadau:

- yn sicrhau bod medrau digidol yn cael eu cynllunio a'u haddysgu'n systematig i gynorthwyo pob disgybl i ddatblygu'i ddealltwriaeth; mae hyn yn arbennig o bwysig i'r disgyblon hynny sydd heb gael profiad ehangach o ddefnyddio adnoddau digidol y tu allan i'r ysgol
- yn sicrhau bod eu cwricwlwm yn adeiladu medrau disgyblion yn gynyddol ac yn cynnwys agweddau fel codio a'r defnydd o gronfeydd data a thaenlenni ar draws y cwricwlwm, sy'n wan yn gyffredin mewn ysgolion
- yn sicrhau bod dysgwyr yn cael at adnoddau digidol priodol i'w hoedran yn rheolaidd, ac yn helpu i ddatblygu'u hannibyniaeth wrth ddewis pryd a sut i ddefnyddio offer digidol
- yn cynllunio ar gyfer profiadau digidol mewn meysydd dysgu a phrofiad eraill, gan wneud yn siŵr bod y medrau a ddatblygir yn cefnogi ac yn gwella dysgu ar draws y cwricwlwm, er enghraifft trwy fapio lle y gall medrau digidol gael eu haddysgu, ac wedyn eu cymhwyso a'u datblygu'n bwrpasol, mewn cyd-destunau newydd

## MA4 – Gofal, cymorth ac arweiniad

Dylai arolygwyr chwilio am ragor o wybodaeth am ymagwedd pob ysgol at ddiogelwch ar-lein yn y ffurflen hunanwerthuso y mae ysgolion yn ei llenwi cyn eu harolygiad ('Ffurflen hunanwerthuso ar gyfer Diogelu ac Amddiffyn Plant').

Mae'r Fframwaith a'r gorchmynion pwnc presennol yn gosod pwys mawr ar y defnydd diogel a phriodol o fedrau digidol, a dylai hyn fod yn rhan greiddiol o bob gweithgaredd. Gwiriwch am hyn, oherwydd caiff effaith hefyd ar eich trafodaethau am ddiogelu yn 4.2.

## MA5 – Arweinyddiaeth a rheolaeth

Gall arolygwyr gynnal trafodaethau ag arweinwyr ac athrawon i ystyried pa mor dda y maent yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys ymagweddau effeithiol at addysgu sy'n gwella medrau digidol disgyblion. Gall arolygwyr drafod

ymagwedd yr ysgol at werthuso a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu medrau digidol. Gall ysgolion gyfeirio at eu defnydd o adnodd hunanadolygu 360 Cymru Llywodraeth Cymru, sy'n ategu'r Daith Ddysgu Proffesiynol Digidol.

Gall arolygwyr ystyried:

- a yw arweinwyr yn wybodus am ddatblygiadau mewn addysgu a dysgu medrau digidol, a ydynt yn cynnig arweinyddiaeth gadarn ac a ydynt yn cyfleu disgwyliadau uchel ynghylch cynnydd disgyblion
- a yw lefel blaenoriaeth datblygiad digidol mewn cynllunio strategol yn briodol
- pa mor dda y mae'r arweinydd digidol yn cynorthwyo athrawon eraill â'u cynllunio ac a yw dysgu proffesiynol yn datblygu medrau staff yn llwyddiannus i wella addysgu medrau digidol
- pa mor dda y mae staff a disgyblion yn defnyddio platfformau digidol i hysbysu rhieni am gynnydd eu plant a pha mor dda y maent yn defnyddio medrau digidol i ategu'u dysgu gartref

## Atodiad 1 – Gwrando ar ddysgwyr

**Cwestiynau ar gyfer gwrando ar ddysgwyr – dewiswch ac addaswch gwestiynau i blant a disgyblion ag anghenion cymhleth ar sail cam eu datblygiad**

**Disgyblion iau yn y Cyfnod Sylfaen**

**Cyfathrebu**
Beth wyt ti'n ei hoffi am weithio gyda'r cyfrifiadur / llechen?
Gelli di ddangos ….. llun/ffotograff/yr eicon ar gyfer dy hoff weithgaredd/y llechen/y cyfrifiadur i fi?
Beth wnest ti?
Dangosa sut rwyt ti'n gallu agor a chau apiau ar lechen e.e. i ddefnyddio ap tynnu llun.
Dangosa sut rwyt ti'n gallu symud gwrthrychau ar draws y sgrin ar y cyfrifiadur neu sut i dynnu llun.
A elli di dynnu ffotograff? Elli di ddangos i mi?

**Trafod data**
Ymwybyddiaeth bosibl o graffiau byw gan ddefnyddio disgyblion, a symud ymlaen i ddefnyddio Pictogram
A elli di ddidoli'r gwrthrychau hyn? – gyda gwrthrychau/ar sgrin

**Modelu**
Beth wyt ti'n ei hoffi am weithio gyda thegan rwyt ti'n gallu ei raglennu (h.y. BeeBot ac ati)
A elli di wneud iddo fynd?
Beth maen ei wneud?
Sut rwyt ti'n ei reoli / ei ddefnyddio?

**Diogelwch ar-lein**
Pwy yw hwn? – edrych ar lun o'i hun / person cyfarwydd

**Disgyblion Blwyddyn 2 yn y Cyfnod Sylfaen**

**Cyfathrebu**
Beth wyt ti'n ei hoffi am weithio gyda'r cyfrifiadur / llechen?
A elli di ddangos enghreifftiau i mi o rywbeth rwyt ti wedi'i wneud?
A elli di ddangos stori/cyflwyniad i mi y gwnest ti gan ddefnyddio'r llechen neu'r cyfrifiadur?
Sut wyt ti'n newid maint neu liw geiriau ar dudalen – neu'n newid eu golwg (newid y ffont)?
A elli di ddangos enghreifftiau i mi o ffotograffau rwyt ti wedi'u tynnu gan ddefnyddio camera neu lechen?
Beth wyt ti'n ei wneud os bydd angen help arnat ti?
A allet ti ei newid? Ei wella? Sut?
Sut wyt ti'n rhannu dy waith?
Sut wyt ti'n arbed dy waith?

**Trafod data**
A elli di ddangos enghreifftiau i mi o graffiau greaist ti gan ddefnyddio llechen neu gyfrifiadur? – fel arfer, bydd dilyniant yn mynd o graffiau a phictogramau ‘byw’ yn y dosbarth Meithrin/Derbyn/Blwyddyn 1 i graffiau bloc (Blwyddyn 1) a bar ym Mlwyddyn 2
Efallai bydd disgyblion mwy abl yn gallu dangos enghreifftiau i chi o gael atebion o gronfa ddata.
A elli di feddwl am enghraifft pan ddefnyddiaist ti’r rhyngrwyd i chwilio am wybodaeth? Sut gwnest ti hyn?

**Modelu**
Sut wyt ti’n rheoli / defnyddio tegan rhaglenadwy (h.y. BeeBot ac ati)?
A elli di ddangos i mi sut i symud y tegan rhaglenadwy o gwmpas y sgwâr lleiaf y mae’n gallu ei greu fel arfer? Beth am betryal? (Yn achos y disgyblion mwy abl, gallech ofyn pa newidiadau y byddai’n rhaid iddynt eu gwneud i greu sgwâr ddwywaith y maint lleiaf).

**Diogelwch ar-lein**
Sut wyt ti’n cadw’n ddiogel ar-lein?
Beth wyt ti’n ei wneud os byddi di’n dod o hyd i rywbeth annymunol ar y cyfrifiadur?
Sut wyt ti’n rhannu gwybodaeth?

**Disgyblion ym mlynyddoedd iau cyfnod allweddol 2**

**Cyfathrebu**
Beth wyt ti’n ei hoffi am weithio gyda'r cyfrifiadur / llechen?
A elli di ddangos enghreifftiau i mi o bethau rwyt ti wedi’u gwneud?
A elli di ddangos stori/cyflwyniad y gwnaethost ti gan ddefnyddio’r llechen neu’r cyfrifiadur?
Sut wyt ti’n newid maint neu liw geiriau ar dudalen – neu’n newid eu golwg (newid ffont)? Sut wyt ti’n ychwanegu lluniau neu fideo neu sain?
A elli di ddangos enghreifftiau o luniau ac ati rwyt ti wedi’u hychwanegu at ddarn o waith?
A elli di chwarae unrhyw sain greaist ti gan ddefnyddio ap e.e. GarageBand?
A elli di ddangos unrhyw fideos neu animeiddiadau greaist ti?

**Trafod data**
A elli di ddangos enghreifftiau o graffiau greaist ti gan ddefnyddio llechen neu gyfrifiadur? – fel arfer, bydd dilyniant yn mynd o graffiau a phictogramau ‘byw’ yn y dosbarth Meithrin/Derbyn/Blwyddyn 1 i graffiau bloc (Blwyddyn 1) a bar ym Mlwyddyn 2 i graffiau bar a llinell ym Mlynyddoedd 3 a 4
A all disgyblion ddangos enghreifftiau i chi o gael atebion o gronfa ddata neu ddefnyddio cronfa ddata mewn gwaith thematig e.e. ffeil ddata ar ‘Ein hunain’ neu sut y dosbarthon nhw anifeiliaid neu ddefnyddiau gan ddefnyddio cronfa ddata ganghennog?
A elli di roi amrywiaeth o enghreifftiau o ddefnyddio’r rhyngrwyd i chwilio am wybodaeth? Sut gwnest ti hyn?

**Modelu**
A allant esbonio sut i reoli tegan rhaglenadwy i greu siapiau syml amrywiol? (*A ydynt*

*yn dechrau deall sut mae newid un newidyn yn effeithio ar newidyn arall mewn modelau neu efelychiadau e.e. dyblu maint sgwâr a grëwyd gan ddefnyddio tegan rhaglenadwy neu greu petryalau meintiau amrywiol?*
A allant ddisgrifio i chi sut y defnyddiont efelychiad ar-lein e.e. XYZ yn Hwb?

**Diogelwch ar-lein**
Sut wyt ti'n cadw'n ddiogel ar-lein?
Beth wyt ti'n ei wneud os byddi di'n dod o hyd i rywbeth annymunol ar y cyfrifiadur?
Sut wyt ti'n rhannu gwybodaeth?
Dywed wrtha i am reol ar gyfer sut dylai'r rhyngrwyd gael ei ddefnyddio yma yn yr ysgol?

**Disgyblion ym mlynyddoedd hŷn cyfnod allweddol 2**

**Cyfathrebu**
Beth wyt ti'n ei hoffi am weithio gyda'r cyfrifiadur / llechen?
A elli di ddangos enghreifftiau i mi o bethau rwyt ti wedi'u gwneud?
A elli di ddangos stori/cyflwyniad y gwnest ti gan ddefnyddio'r llechen neu'r cyfrifiadur at ddiben neu gynulleidfa benodol?
Sut wyt ti'n newid maint neu liw geiriau ar dudalen – neu'n newid eu golwg (newid ffont)? Sut wyt ti'n ychwanegu lluniau neu fideo neu sain?
A elli di ddangos tudalen flaen papur newydd greaist ti h.y. dogfen â cholofnau a lluniau?
A elli di ddangos enghreifftiau o luniau ac ati rwyt ti wedi'u hychwanegu at ddarn o waith?
A elli di chwarae unrhyw sain greaist ti gan ddefnyddio ap e.e. GarageBand?
A elli di ddangos unrhyw fideos neu animeiddiadau greaist ti?
A elli di ddangos sut rwyt ti'n anfon ac yn cael gwybodaeth yn electronig?

**Trafod data**
A elli di ddangos enghreifftiau o graffiau greaist ti gan ddefnyddio llechen neu gyfrifiadur? – fel arfer, bydd dilyniant yn mynd o graffiau a phictogramau 'byw' yn y dosbarth Meithrin/Derbyn/Blwyddyn 1 i graffiau bloc (Blwyddyn 1) a bar ym Mlwyddyn 2 i graffiau bar a llinell ym Mlynyddoedd 3 a 4, graffiau bar, llinell a gwasgariad ym Mlwyddyn 6
A all disgyblion ddangos enghreifftiau i chi o sut y gwnaethant ychwanegu at gronfa ddata neu ei diwygio? Efallai bydd disgyblion mwy abl yn gallu dangos sut y gwnaethant greu cronfa ddata (Lefel 5)
A elli di ddangos i mi sut y gelli di chwilio a didoli mwy nag un maes mewn cronfa ddata – e.e. faint o ddisgyblion sydd â gwallt melyn a llygaid glas?
A elli di roi amrywiaeth o enghreifftiau o ddefnyddio'r rhyngrwyd i chwilio am wybodaeth? Sut gwnest ti hyn?

**Modelu**
A allant esbonio sut mae newid un newidyn yn effeithio ar newidyn arall mewn modelau neu efelychiadau e.e. dyblu maint sgwâr a grëwyd gan ddefnyddio tegan rhaglenadwy neu greu petryalau meintiau amrywiol; neu effaith cynnydd o 15% yng nghost y ffrwythau ar eu taenlen Siop Ffrwythau?

A allent esbonio sut i ddefnyddio taenlen i drosi gwerth arian cyfred neu gyfrifo arwyneb a pherimedr ystafell?
A allant ddisgrifio i chi sut y defnyddion nhw efelychiad ar-lein e.e. XYZ yn Hwb?

**Diogelwch ar-lein**
Sut wyt ti'n cadw'n ddiogel ar-lein?
Beth wyt ti'n ei wneud os byddi di'n dod o hyd i rywbeth annymunol ar y cyfrifiadur?
Sut wyt ti'n rhannu gwybodaeth?
Dywed wrtha i am reol ar gyfer sut dylai'r rhyngrwyd gael ei ddefnyddio yma yn yr ysgol?

**Disgyblion yng nghyfnod allweddol 3**

**Cyfathrebu**
A elli di ddangos stori/cyflwyniad y gwnest ti at ddiben neu gynulleidfa benodol gan ddefnyddio'r llechen neu'r cyfrifiadur? A elli di ddisgrifio sut gwnest ti baratoi/darganfod a chyfuno'r amrywiol ddarnau o wybodaeth a chyfryngau? A elli di ddangos copïau amrywiol i mi sy'n dangos sut gwnest ti fireinio'r gwaith a chreu'r darn gwaith terfynol?
A elli di ddangos tudalen flaen papur newydd greaist ti h.y. dogfen â cholofnau a lluniau?
A elli di ddangos enghreifftiau o luniau ac ati rwyt ti wedi'u hychwanegu at ddarn o waith?
A elli di chwarae unrhyw sain greaist ti gan ddefnyddio ap e.e. GarageBand?
A elli di ddangos unrhyw fideos neu animeiddiadau greaist ti?
A elli di ddangos sut rwyt ti'n anfon ac yn cael gwybodaeth yn electronig?
Sut wyt ti'n defnyddio TGCh i wirio cywirdeb a hygrededd gwybodaeth? (trwy gymharu gwybodaeth o wahanol ffynonellau, gan wneud dewisiadau i fodloni anghenion diben neu gynulleidfa benodol).

**Trafod data**
A elli di ddangos enghreifftiau o graffiau greaist ti ac esbonio sut gwnest ti hyn?
A elli di ddangos enghraifft o gronfa ddata greaist ti?
Sut wyt ti'n defnyddio cronfeydd data i ddilyn trywyddau ymholi cymhleth a dod i gasgliadau? e.e. A elli di ddangos i mi sut y gelli di chwilio a didoli mwy nag un maes mewn cronfa ddata – e.e. faint o ddisgyblion sydd â gwallt melyn a llygaid glas neu faint o ddisgyblion sy'n pwyso > na 40kg ac sydd yn < na 120cm o daldra?
A elli di roi amrywiaeth o enghreifftiau o ddefnyddio'r rhyngrwyd i chwilio a didoli mwy nag un maes mewn cronfa ddata e.e. Ford Focus 5 drws sy'n werth rhwng £4000 a £4500. Sut gwnest ti hyn?

**Modelu**
A allant esbonio sut mae newid un newidyn yn effeithio ar newidyn arall mewn modelau neu efelychiadau e.e. effaith cynnydd o 17.5% mewn costau ar yr elw sy'n cael ei wneud gan y gwerthwr?
A elli di esbonio'n glir beth mae fformiwla yn ei wneud mewn cell?
A elli di esbonio sut i ddefnyddio taenlen i gyfrifo arwyneb a pherimedr ystafell?
A elli di ddisgrifio sut y defnyddiest ti efelychiad ar-lein e.e. https://hwb.wales.gov.uk/search?query=simulations – a wyt ti'n gallu amrywio'r rheolau ynddynt a phrofi rhagdybiaethau?

**Diogelwch ar-lein**
Sut wyt ti'n cadw'n ddiogel ar-lein?
Dywed wrtha i am reol ar gyfer sut dylai'r rhyngrwyd gael ei ddefnyddio yma yn yr ysgol?
Beth yw dy farn di am faterion sy'n cael eu codi trwy'r defnydd ar TGCh?
Beth yw'r peryglon sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio'r rhyngrwyd/technolegau cysylltiedig?
Beth yw goblygiadau defnyddio rhwydweithiau?

**Disgyblion yng nghyfnod allweddol 4**

**Cyfathrebu**
A elli di ddangos cyhoeddiad/cyflwyniad/fideo/animeiddiad y gwnest ti at ddiben neu gynulleidfa benodol gan ddefnyddio'r llechen neu'r cyfrifiadur?
A elli di ddisgrifio sut gwnest ti gynllunio'r gwaith?
A elli di ddangos copïau amrywiol i mi sy'n dangos sut gwnest ti fireinio'r gwaith a chreu'r darn gwaith terfynol?
Sut gwnest ti fireinio dy ddewis o wybodaeth i gyd-fynd ag anghenion diben neu gynulleidfa benodol?
Sut wyt ti'n nodi manteision a chyfyngiadau gwahanol raglenni ac yn dewis a defnyddio cyfleusterau TGCh addas?

**Trafod data**
A elli di ddangos enghreifftiau o graffiau greaist ti ac esbonio sut gwnest ti hyn?
A elli di ddangos sut gwnest ti ddylunio cronfa ddata (h.y. gwneud dewisiadau priodol o fewn rhaglen trafod data, gan ddefnyddio'i swyddogaethau arbenigol)?

**Modelu**
A elli di ddangos sut gwnest ti ddylunio model cyfrifiadurol i fodloni angen penodol?

**Diogelwch ar-lein**
Sut wyt ti'n cadw'n ddiogel ar-lein?
Dywed wrtha i am reol ar gyfer sut dylai'r rhyngrwyd gael ei ddefnyddio yma yn yr ysgol?
A ydynt yn gallu trafod yn wybodus y materion cymdeithasol, economaidd, moesegol a moesol sy'n cael eu codi gan TGCh?

## Atodiad 2 – Cwestiynau i uwch arweinwyr

Dewiswch y cwestiynau mwyaf priodol yn ôl y trywyddau ymholi:

| | |
|---|---|
| **MA 1** | Beth yw eich barn am safonau medrau digidol ar draws y cwricwlwm yn yr ysgol? |
| **MA 2** | Beth yw eich barn am ba mor dda y mae disgyblion yn gwybod sut i gadw'n ddiogel ar-lein? Sut rydych chi'n gwybod |
| **MA 3** | Pa gamau ydych chi wedi'u cymryd i hyrwyddo datblygiad medrau digidol a diogelwch ar-lein ar draws yr ysgol? Sut rydych chi'n bwriadu datblygu medrau dysgwyr? |
| **MA 5** | A oes unrhyw rwystrau sy'n atal disgyblion rhag datblygu medrau digidol da? |
| **MA 3** | Sut rydych chi'n sicrhau bod y cwricwlwm yn darparu cyfleoedd priodol i ddysgwyr ddatblygu'u medrau digidol? |
| **MA 4** | Sut rydych chi'n olrhain ac yn monitro cynnydd disgyblion mewn medrau digidol? |
| **MA 4** | A yw gwybodaeth am ddatblygiadau medrau disgyblion yn cael ei rhannu'n effeithiol rhwng cyfnodau? Tystiolaeth? |
| **MA 4** | Pa mor ddiogel yw eich gweithdrefnau diogelwch ar-lein? Pa mor dda maent yn defnyddio 360 Degree Safe Cymru i adolygu a gwella'u polisïau a'u hymarfer diogelwch ar-lein? Beth maent yn ei ddefnyddio os nad ydynt wedi cofrestru neu os nad ydynt yn defnyddio 360 Degree Safe Cymru yn weithgar? A yw hyn yn ddigon cadarn? |
| **MA 5** | Sut rydych chi'n sicrhau bod dilyniant ac ehangder addas o fedrau digidol yn cael sylw ym mhob grŵp oedran a maes dysgu / pwnc? |
| **MA 5** | Pa hyfforddiant a chymorth y mae staff wedi'u cael i wella'r defnydd o offer digidol ar draws y cwricwlwm? |
| **MA 5** | Sut rydych chi'n sicrhau gwerth am arian wrth gaffael cyfarpar a hyfforddiant TGCh? |